ITEM 2

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd**
**Cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd**
**Ddydd Iau 12 Ionawr 2017, 1.30 – 2.30pm**
**Coleg Caerdydd a'r Fro, Campws Canol y Ddinas**
**Ystafelloedd 405/406**

| | |
|---|---|
| **<u>Yn bresennol</u>** | |
| | |
| **Aelodau Bwrdd Statudol:** | |
| Y Cynghorydd Phil Bale **(Cadeirydd)** | Arweinydd, Cyngor Dinas Caerdydd |
| Sarah McGill | Cyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid |
| Maria Battle | Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Fiona Kinghorn | Cyfarwyddwr Dros Dro Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd |
| | Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Abigail Harris | Cyfarwyddwr Cynllunio, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r |
| Huw Jakeway | Fro |
| David Bents | Prif Swyddog Tân, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru |
| | Rheolwr Grŵp Gweithrediadau, Gwasanaeth Tân ac Achub |
| Nadia De Longhi | De Cymru |
| | Rheolwr Gweithrediadau, Taf ac Elái, Cyfoeth Naturiol |
| | Cymru |
| **Cyfranogwyr Gwadd:** | |
| Mark Brace | |
| Peter Greenhill | |
| Victoria Harris | Comisiynydd Cynorthwyol yr Heddlu a Throseddau |
| | Pennaeth yr Uned Gyflenwi Leol, y Gwasanaeth Prawf |
| | Cenedlaethol |
| **Ymddiheuriadau:** | Pennaeth Gweithredol, Uned Gyflawni Leol dros Gaerdydd |
| Paul Orders | a'r Fro, Cwmni Adsefydlu Cymunedol |
| Sharon Hopkins | |
| | |
| Gareth O'Shea | Prif Weithredwr, Cyngor Dinas Caerdydd |
| | Prif Weithredwr Dros Dro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd |
| Sheila Hendrickson-Brown | a'r Fro |
| Prif Gwnstabl Peter Vaughan | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau De Cymru, |
| David Bebb | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | Prif Swyddog Gweithredol, C3SC |
| Eleanor Marks | Heddlu De Cymru |
| | Prif Weithredwr Cynorthwyol, Cwmni Adsefydlu Cymunedol |
| **Rhai eraill yn bresennol:** | Dirprwy Gyfarwyddwr Isadran Cymunedau, Llywodraeth |
| Allison Dutoit | Cymru |
| Belinda Davies | |
| Yr Athro Adam Fletcher | |

ITEM 2

| | |
|---|---|
| Jess Hoare<br>Joseph Reay<br><br>Gareth Newell<br><br>Clive Bailey **(Clerc)** | Gehl Architects<br>Prif Uwch-arolygydd, Heddlu De Cymru<br>Cyfarwyddwr Academaidd, NESTA/Yr Lab (Eitem 5)<br>Rheolwr Rhaglen NESTA/Yr Lab (Eitem 5)<br>Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau, Cyngor Dinas Caerdydd<br>Rheolwr Polisïau, Partneriaethau a Ffocws, Cyngor Dinas Caerdydd<br>Swyddog Polisi a Phartneriaethau, Cyngor Dinas Caerdydd |

| **Rhif.** | **Eitem agenda** | |
|---|---|---|
| **1.** | **Croeso a Chyflwyniadau**<br>Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau fel uchod. | |
| **2.** | **Cofnodion a chamau gweithredu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**<br>Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir.<br><br>Aeth GN drwy gamau gweithredu'r cyfarfod blaenorol, gan roi gwybod i'r bwrdd am y rhai a gwblhawyd a'r rhai i'w cynnwys yn Agenda'r cyfarfod. | |
| **3.** | **Ymgynghorydd Dinas Fyw**<br>Cyflwynodd y Cadeirydd Allison Dutoit a esboniodd ei rôl a'i dyheadau fel Ymgynghorydd Dinas Fyw. Yn ogystal â rhannu arbenigedd a gafwyd o weithio mewn dinasoedd o gwmpas y byd, bydd y rôl yn cynnwys cynghori a herio Caerdydd er mwyn gwneud y newidiadau sydd eu hangen er mwyn sicrhau mae hi yw'r ddinas orau i fyw ynddi yn Ewrop. | |
| **4.** | **Asesiad o Lesiant**<br>Rhoddodd GN drosolwg o ddarganfyddiadau a chyfansoddiad yr asesiad llesiant drafft ac Adroddiad Dinas Fyw 2017, a ddosbarthwyd ill dau gyda phapurau.<br><br>**PENDERFYNWYD:**<br>- byddai Adroddiad Dinas Fyw, Dinas Byw drafft 2017ac Asesiad Drafft Llesiant Lleol yn mynd allan ar gyfer ymgynghori fel y'u cyflwynwyd<br>- caiff gwybodaeth sy'n dangos amrywiaeth gynyddol y ddinas ei hychwanegu at yr Adroddiad Dinas Fyw Dinas Byw cyn iddo gael ei gwblhau<br>- caiff drafft yr Asesiad Llesiant gan gymryd i ystyriaeth yr adborth ymgysylltu ei gyflwyno yng nghyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gweithredol, 10 Mawrth 2017 a bydd yn mynd at y | Ysgrifenyddiaeth<br><br>Ysgrifenyddiaeth<br><br>Ysgrifenyddiaeth<br><br>Ysgrifenyddiaeth |

| | | |
|---|---|---|
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Llawn i'w gymeradwyo yn ei gyfarfod ar 21 Mawrth 2017<br>- caiff Cynllun Llesiant Lleol Caerdydd ei gynhyrchu yn unol â'r amserlen ddangosol a osodwyd yn y cyfarfod<br>- caiff Grŵp Ymgynghori y Cynllun Llesiant ei greu er mwyn symud datblygiad Cynllun Llesiant Caerdydd yn ei flaen<br>- Bydd Aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn eistedd ar Grŵp Ymgynghorol y Cynllun Llesiant. | Ysgrifenyddiaeth<br><br>Pob partner |
| **5.** | **Hyb Arloesi**<br>Rhoddodd Yr Athro Adam Fletcher drosolwg o Astudiaeth Rhychwantu Y Lab a gomisiynwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gweithredol. Trafododd y Bwrdd argymhellion yr astudiaeth a thrafododd faterion gan gynnwys:<br>• Nodi'r projectau mwyaf priodol ar gyfer y cynllun peilot, a ddylai fod yn briodol o ran graddfa ac yn bosibl eu cyflawni<br>• Cynnwys dinasyddion a staff er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau presennol<br>• Defnyddio projectau fel modd o ddangos ffyrdd newydd o weithio ac archwilio ffyrdd o sicrhau adnoddau ychwanegol<br>• Y posibilrwydd i'r model catapwlt ddarparu fframwaith ar gyfer blaenoriaethau a rennir ar draws y ddinas-rhanbarth.<br><br>**PENDERFYNWYD:**<br>- Bod adroddiad i gael ei lunio ar y model gweithredu ar gyfer Hyb Arloesi Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd er mwyn i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gweithredol ei ystyried yn ei gyfarfod ar 10 Mawrth 2017<br>- Dylid mabwysiadu dwy flaenoriaeth amlasiantaethol ar gyfer projectau arloesi a yrrir gan heriau, wedi'u harwain gan yr Asesiad o Lesiant Lleol. Bydd Y Lab yn gweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gweithredol er mwyn adnabod meysydd posibl i'w hystyried gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei gyfarfod, 21 Mawrth 2017<br>- Mae rhanddeiliaid allweddol eraill i ymgysylltu â hwy yn cefnogi cyllid a chynaliadwyedd yn y tymor hwy<br>- Caiff briff ei ddosbarthu i'r Bwrdd hwn ar Grŵp Catapwlt Dinasoedd y Dyfodol. | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus/<br>Y Lab<br><br>Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus<br><br>Ysgrifenyddiaeth<br><br>Ysgrifenyddiaeth |
| **6.** | **Gweithio yn y Gymdogaeth ac Ymgysylltu â'r Gymuned**<br>Darparodd SM drosolwg o'r ymagwedd wedi'i hadfywio arfaethedig a'r argymhellion fel y'u rhestrir yn yr adroddiad a'r cyflwyniad 'Locality and Neighbourhood Working – Next Steps'. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Trafododd y Bwrdd egwyddorion ymagwedd newydd at weithio yn y gymdogaeth, wedi'i hadeiladu ar ddealltwriaeth fanwl o ddemograffeg, galw, asedau a gwasanaethau ar lefel y gymdogaeth. Cytunwyd ar yr ymagwedd arfaethedig fel un sy'n briodol ar gyfer darparu fframwaith ar gyfer deall a mynd i'r afael â nifer o heriau a nodwyd yn yr asesiad Llesiant, gan gynnwys gordewdra a threchu allgáu cymdeithasol.<br><br>**PENDERFYNWYD:**<br>- Cymeradwyodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yr ymagwedd newydd llyfnach i weithio'n lleol ac yn y gymdogaeth a'r argymhellion<br>- Bydd aelodau'r PSB yn darparu cynrychiolaeth briodol ar Fwrdd y Rhaglen Gyffredinol Gymdogaethol<br>- Ceir ymrwymiad parhaus i ddarparu adnoddau priodol o ran ymglymiad staff gan gynnwys rolau arwain mewn unrhyw grwpiau gorchwyl a gorffen perthnasol<br>- Bydd fframweithiau rheoli perfformiad sy'n gweithredu o fewn sefydliad pob aelod Bwrdd yn ymgorffori gweithgarwch partneriaethau yn llawn. | Pob partner<br><br>Pob partner<br><br>Pob partner |
| **7.** | **Adrodd ar eithrio Chwarter 2 2016/17 BGC**<br>Gofynnodd GN am gymeradwyaeth ar gyfer y diwygiadau a awgrymwyd i Gylch Gorchwyl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fel ymateb i'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion yn ei gyfarfod ar Ddiogelwch yn y Gymuned a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd 2016.<br><br>**CYMERADWYWYD** diwygiadau i Gylch Gorchwyl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. | Ysgrifenyddiaeth |
| **8.** | **Sganio'r Gorwel ac Unrhyw Fusnes Arall**<br><br>**Diwygio Llywodraeth Leol**<br>Rhoddodd GN ddiweddariad ar Ddiwygio Llywodraeth Leol, o ystyried y goblygiadau posibl ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus<br><br>**PENDERFYNWYD:**<br>- Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gweithredol yn ystyried ymateb i'r Papur Gwyn ar Ddiwygio Llywodraeth Leol.<br><br>**Brexit**<br>Rhoddodd GN wybod i'r Bwrdd y cafodd grŵp amlasiantaethol gyda | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |

| | | |
|---|---|---|
| | chynrychiolwyr o lywodraeth leol, iechyd ac addysg uwch yn y ddinas ei sefydlu. Nodwyd bod y grŵp yn gweithio ar adroddiad ar effaith Brexit ar Gaerdydd ac y caiff hyn ei baratoi cyn i Erthygl 50 gael ei thanio. | |
| | **Dyddiadau Cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Caerdydd**<br>Caiff y cyfarfod nesaf fis Mai ei ad-drefnu i ddilyn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyngor Dinas Caerdydd.<br><br>**CYTUNWYD** y bydd papur opsiynau yn cael ei baratoi ar y berthynas llywodraethiant bresennol rhwng y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gweithredol er mwyn ei roi gerbron cyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. | Ysgrifenyddiaeth |

| | Camau Gweithredu | |
|---|---|---|
| | **Eitem 4 Asesiad o Lesiant** | |
| | Bydd Adroddiad Dinas Fyw, Dinas Byw drafft 2017 ac Asesiad o Lesiant Lleol yn mynd allan ar gyfer ymgynghori fel y'u cyflwynwyd | Ysgrifenyddiaeth |
| | Bydd gwybodaeth sy'n dangos amrywiaeth gynyddol y ddinas yn cael ei hychwanegu at yr Adroddiad Dinas Fyw, Dinas Byw cyn iddo gael ei gwblhau | Ysgrifenyddiaeth |
| | Bydd drafft yr Asesiad Llesiant yn cymryd i ystyriaeth adborth ymgysylltu i'w gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gweithredol, a bydd yn mynd at y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Llawn i'w gymeradwyo yn ei gyfarfod ar 21 Mawrth 2017 | Ysgrifenyddiaeth |
| | Caiff Cynllun Llesiant Lleol Caerdydd ei gynhyrchu yn unol â'r amserlen ddangosol a osodwyd yn y cyfarfod | Ysgrifenyddiaeth |
| | Caiff Grŵp Ymgynghori y Cynllun Llesiant ei greu er mwyn symud datblygiad Cynllun Llesiant Caerdydd yn ei flaen | Ysgrifenyddiaeth |
| | Bydd Aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn eistedd ar Grŵp Ymgynghorol y Cynllun Llesiant. | Pob partner |
| | **Eitem 5 Hyb Arloesi** | |
| | Caiff adroddiad ei lunio ar y model gweithredu ar gyfer Hyb Arloesi Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd er mwyn i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gweithredol ei ystyried yn ei gyfarfod ar 10 Mawrth 2017 | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus/<br>Y Lab |

| | | |
|---|---|---|
| | Bydd Y Lab yn gweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gweithredol er mwyn adnabod meysydd posibl i'w hystyried gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei gyfarfod, 21 Mawrth 2017<br><br>Rhanddeiliaid allweddol eraill i ymgysylltu â hwy yn cefnogi cyllido tymor hwy a chynaliadwyedd<br><br>Caiff briff ei ddosbarthu i'r Bwrdd hwn ar Grŵp Catapwlt Dinasoedd y Dyfodol.<br><br>**Eitem 6 Gweithio yn y Gymdogaeth ac Ymgysylltu â'r Gymuned**<br><br>Bydd aelodau'r PSB yn darparu cynrychiolaeth briodol ar Fwrdd y Rhaglen Gyffredinol Gymdogaethol<br><br>Ceir ymrwymiad parhaus i ddarparu adnoddau priodol o ran ymglymiad staff gan gynnwys rolau arwain mewn unrhyw grwpiau gorchwyl a gorffen perthnasol<br><br>Bydd fframweithiau rheoli perfformiad sy'n gweithredu o fewn sefydliad pob aelod Bwrdd yn ymgorffori gweithgarwch partneriaethau yn llawn.<br><br>**Eitem 7 Adrodd am Eithriadau yn Chwarter 2 2016/17**<br><br>CYMERADWYWYD diwygiadau i Gylch Gorchwyl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.<br><br>**Eitem 8 Diwygio Llywodraeth Leol**<br><br>Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gweithredol yn ystyried ymateb i'r Papur Gwyn ar Ddiwygio Llywodraeth Leol.<br><br>**(Llywodraethiant)**<br><br>Bydd papur opsiynau yn cael ei baratoi ar y berthynas llywodraethiant bresennol rhwng y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gweithredol er mwyn ei roi gerbron cyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus<br><br>Ysgrifenyddiaeth<br><br>Ysgrifenyddiaeth<br><br>Pob partner<br><br>Pob partner<br><br>Pob partner<br><br>Ysgrifenyddiaeth<br><br>Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus<br><br>Ysgrifenyddiaeth |